

Agenda – Culture, Welsh Language and Communications Committee

Meeting Venue:

Committee Room 5 – Tŷ Hywel

Meeting date: 10 October 2018

Meeting time: 09.30

For further information contact:

Steve George

Committee Clerk

0300 200 6565

SeneddCWLC@assembly.wales

- 1 Motion under Standing Order 17.22 to elect temporary Chair**
- 2 Introductions, apologies, substitutions and declarations of interest**
- 3 Supporting and promoting the Welsh language: An inquiry into the legislative, policy and wider context: Evidence session 3**
(09:30 – 11:00) (Pages 1 – 15)
Dr Elin Royles, Department Director of Welsh, Aberystwyth University
Dr Huw Lewis, Lecturer in International Politics, Aberystwyth University
Emyr Lewis, Partner and Regional Senior Partner – Wales, Blake Morgan
- 4 Paper(s) to note**
 - 4.1 Supporting and promoting the Welsh Language: Further information from the Welsh Language Commissioner**
(Pages 16 – 20)
 - 4.2 Funding for and access to music education: Comments on the Welsh Government's Response – multiple signatories**
(Pages 21 – 22)
 - 4.3 Funding for and access to music education: Letter to the Chair from Making Music**
(Pages 23 – 24)



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

4.4 Funding for and access to music education: Letter to the Chair from South Powys Youth Music

(Pages 25 – 29)

5 Motion under Standing Order 17.42 to resolve to exclude the public from the meeting for the following business:

6 Private debrief

(11:00 – 11:15)

7 Private Briefing from the BBC on the Local Democracy Reporting Service

(11:15 – 12:00)

Matthew Barraclough, Head of BBC Local News Partnerships

Rhys Evans, Head of Strategy & Education, BBC Wales

Gareth Wyn Williams, Local Democracy Reporting Service reporter

Elizabeth Bradfield, Local Democracy Reporting Service reporter

Agenda Item 3

Document is Restricted



Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Tystiolaeth i Ymchwiliad: Cefnogi a hybu'r Gymraeg: Ymchwiliad i'r cyd-destun deddfwriaethol, polisi ac ehangach

Dr Elin Royles a Dr Huw Lewis, Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru/WISERD@Aberystwyth, Prifysgol Aberystwyth

1.0 Cyd-destun

Canolfan ymchwil ryngddisgyblaethol ym Mhrifysgol Aberystwyth a lansiwyd yn 2016 yw Canolfan Wleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru - WISERD@Aberystwyth, gyda'r nod o ddatblygu ein dealltwriaeth o wleidyddiaeth a chymdeithas gyfoes yng Nghymru yng nghyd-destun byd cydgysylltiedig, gan gefnogi a chyflawni gwaith ymchwil o safon byd-eang yn y gwyddorau cymdeithasol, a chyfrannu at wybodaeth gyhoeddus a dadleuon a datblygiad polisi yng Nghymru. Mae'r dystiolaeth hon yn tynnu ar ein hymchwil i faes polisi a chynllunio iaith yng Nghymru a'r tu hwnt ac ar dystiolaeth gasglwyd mewn seminar arbenigol a gynhaliwyd genym i drafod Papur Gwyn y Llywodraeth y llynedd.

1.1 Swyddogaeth deddfwriaeth mewn cefnogi a hybu ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol

1.1.1 Dros y degawdau diwethaf gwelwyd ymdrechion cynyddol gan lywodraethau is-wladwriaethol ar draws gorllewin Ewrop i gydnabod a hyrwyddo gwahanol ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol. At ei gilydd, mae'r ymdrechion hyn wedi cynnwys gwneud defnydd o becyn eang o ddulliau polisi gwahanol. Fodd bynnag, daeth deddfwriaeth i gael ei weld fel un elfen allweddol yn y pecyn hwn. Nodir yma rai pwyntiau cyffredinol ynglŷn â chyfraniad neilltuol deddfwriaeth.

1.1.2 Yn gyntaf, gellir dadlau mai pennaf rôl deddfwriaeth yw sefydlu cyfundrefn sy'n gwarantu cyfiawnder a chydaddoldeb sifig i'r sawl sy'n siarad iaith lleiafrifol neu ranbarthol fel y Gymraeg ac sy'n dymuno (neu, yn wir, angen) defnyddio'r iaith honno mewn gwahanol beuoedd swyddogol – er enghraifft wrth ymdrin â'r drefn gyfiawnder neu wrth geisio gwasanaethau iechyd sylfaenol. Mae'n hollbwysig ein bod yn cydnabod rôl hanfodol deddfwriaeth iaith yn y cyswllt hwn ac osgoi syrthio i'r fagl o gloriannu ei gyfraniad ar sail ystyriaeth o'r hyn sy'n hybu defnydd cymdeithasol o iaith yn unig.

1.1.3 Yn ail, gellir dehongli deddfwriaeth iaith fel offeryn polisi sydd, yn bennaf, yn creu fframwaith er mwyn gosod dyletswyddau statudol ar gyrff a sefydliadau gwahanol i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith wrth ymdrin â hwy, mewn gwrthgyferbyniad â gweithgareddau polisi eraill sydd â'r nod o

gefnogi a hybu mwy o unigolion i ddysgu iaith ac i'w defnyddio. Er enghraifft, fel rhan o'r drafodaeth gyhoeddus yng Nghymru fe honnir yn gyson bod gormod o bwyslais wedi'i roi dros y blynyddoedd ar ddeddfu ar draul ymdrechion i sicrhau bod pobl yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Goblygiadau safbwynt o'r fath yw peidio â chydabod yn ddigonol y modd mae deddfwriaeth yn gweithredu fel seilwaith allweddol ar gyfer trefniadau cefnogi a hybu ieithoedd lleiafrifol a'r defnydd ohonynt. Yn y cyd-destun Cymreig, esiamplau yw trefniadau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg neu ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn Gymraeg.

1.1.4 Gellid awgrymu hefyd bod swyddogaeth deddfwriaeth o ran darparu seilwaith ar gyfer iaith lleiafrifol yn arbennig o bwysig mewn amgylchiadau ble nad yw'n iaith fwyafrifol o fewn ardal / pau penodol. Golyga hyn bod llai o gyfleon yn debyg o fod i allu defnyddio'r iaith o ddydd i ddydd a bod y cyfleon a'r gallu i'w defnyddio yng nghyd-destun gwasanaethau yn dod yn fwy allweddol, boed o ran normaleiddio defnydd ohoni, neu o ran dyrchafu ei statws gweledol. Yn yr un modd, wrth i ardaloedd o ddwysedd uchel o siaradwyr leihau, gall tueddiad o'r math hwn gynyddu.

1.1.5 Yn drydydd, beth yw goblygiadau hyn i'r gwerthusiad o weithrediad Mesur y Gymraeg 2011? Un o'r problemau sydd wedi effeithio ar y drafodaeth yng nghyd-destun Papur Gwyn y llywodraeth yw na fu digon o eglurder na chytundeb ar beth yn union mae'r cysyniadau o reoleiddio a hybu yn eu cynrychioli. Roedd hyn yn amlwg wrth edrych ar y sylwadau a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad ar weithrediad Mesur y Gymraeg 2011, a wnaeth fwydo i'r Papur Gwyn.¹ Yno gwelwyd amryw o randdeiliaid yn tueddu i ddefnyddio hybu fel cysyniad oedd yn cynrychioli dull meddal a graddol o sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg (dull a gysylltwyd â gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg), tra bod rheoleiddio yn cael ei ddefnyddio fel llaw-fer ar gyfer dull llawer mwy cyhyrog (dull a gysylltwyd â gwaith mwy diweddar Comisiynydd y Gymraeg). Fel awgrymwyd uchod, mae hyn braidd yn gamarweiniol. Byddai'n fwy priodol dehongli rheoleiddio fel gweithgaredd sy'n ymwneud â gosod dyletswyddau sy'n ymwneud â'r Gymraeg ar gyrff a sefydliadau, ynghyd â monitro cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau hyn. Gellir dehongli hybu'r Gymraeg fel gweithgaredd sy'n bennaf yn ymwneud ag annog mwy o ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ac annog agweddau mwy cadarnhaol tuag ati.

1.1.6 Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn ymwneud â cheisio dylanwadu ar arferion a gweithdrefnau ieithyddol sefydliadau, tra bod gwaith hybu yn ymwneud â cheisio dylanwadu ar ymddygiad dydd i ddydd unigolion, teuluoedd a chymunedau ledled Cymru. (Wrth reswm, yn ei hanfod, mae gwaith rheoleiddio hefyd yn galw am geisio dylanwadu ar arferion gwahanol unigolion, ond yn arwyddocaol, dylanwadu ar unigolion yn rhinwedd y ffaith eu bod yn ddarparwyr gwasanaeth ac yn dal gwahanol swyddi proffesiynol a wneir yn yr achos hwn, yn hytrach na cheisio dylanwadu ar ymddygiad anffurfiol pobl mewn perthynas â'u teulu neu eu cylch o ffrindiau).

¹ Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2017). *Paratoi ar gyfer Bil y Gymraeg, Galwad am dystiolaeth: crynodeb o'r ymatebion*: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/170718-wl-bill-sor-cy.pdf>

1.1.7 Yn ei grynsyth felly, mae gofyn pwysleisio bod deddfwriaeth iaith yn gallu creu trefniadau sefydliadol addas ar gyfer rheoleiddio sydd yn ei dro yn rhoi sail ar gyfer y gwaith o sbarduno twf yn y nifer o siaradwyr Gymraeg, a chynydd yn y defnydd cymdeithasol a wneir o'r iaith. Gweithredu ar sail strwythurau a geir mewn deddfwriaeth felly wna gweithgareddu hybu a chefnogi.

1.2 Craffu ar ôl deddfu ar Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 – llwyddiannau a chyfyngiadau canfyddedig y ddeddfwriaeth, ac effaith ac effeithiolrwydd safonau'r Gymraeg wrth wella gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a gwella mynediad atynt

1.2.1 Gellir dehongli Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fel rhan o broses o ddatblygu polisi iaith mwy uchelgeisiol yn y Gymru ddatganoledig. Ymatebodd i gyd-destun y consensws eang a ddatblygodd ymysg mudiadau cymdeithas sifil yn ymwneud â'r Gymraeg, y gwrth-bleidiau yn y Cynulliad Cenedlaethol a Bwrdd yr Iaith Gymraeg am ddeddfwriaeth iaith gadarnach. Yn sgil trosglwyddo'r gallu i'r Cynulliad i ddeddfu fel rhan o weithredu trefniadau Rhan 3 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chlymblaid 'Cymru'n Un' rhwng y Blaid Lafur a Phlaid Cymru, defnyddiwyd y grymoedd newydd i gyflwyno Mesur y Gymraeg.

1.2.2 Yn ymarferol, dim ond am gyfnod byr iawn mae'r Safonau wedi bod yn weithredol. Yn sgil hynny, mae'n anodd dod i gasgliadau pendant ynglŷn â'u llwyddiannau a'u cyfyngiadau, eu heffaith a'u heffeithiolrwydd o ran gwella gwasanaethau a gwella mynediad atynt ar draws sectorau gwahanol. Fodd bynnag, gellir dadlau bod swyddogaeth Comisiynydd y Gymraeg fel rheoleiddiwr wedi datblygu'n sylweddol a bod perthynas wedi dechrau datblygu rhwng ei swyddfa â'r gwahanol gyrff sy'n dod o dan gwmpas Mesur y Gymraeg.

1.2.3 Mae'n eglur bod lle i ddatblygu'r broses o ymwneud â chyrff sy'n gweithredu'r Safonau ac addasu'r dull o reoleiddio er mwyn gwella trefniadau cynghori, cefnogi a rhannu arfer da. Nid yw'n glir, fodd bynnag, bod angen diwygio'r ddeddfwriaeth yn sylweddol er mwyn gwneud hynny.

1.2.4 Yn sgil hyn, gallai cyflwyno newidiadau strwythurol sylweddol arwain at golli momentwm a thanseilio'r cynnydd mewn datblygu arferion rheoleiddio newydd dros y blynyddoedd diwethaf.

1.2.5 Tra bod gweithrediad presennol Mesur y Gymraeg fel petai yn arwain at drefniadau sydd yn gwella gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a gwella mynediad atynt, mae cyfle i adlewyrchu yn well yr ehangu ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad drwy ymwared â'r cyfyngiadau ar gwmpas Mesur y Gymraeg 2011, a osodir gan Atodlenni 5 a 7 o ran y categorïau o berson sy'n agored i orfod cydymffurfio â safonau a dileu'r system gysylltiedig o restrau yn Atodlenni 6 a 8. Byddai hyn yn galluogi gwella mynediad at wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg gan amryw o gyrff, gan gynnwys busnesau sector breifat megis darparwyr ffonau symudol ayb.

1.2.6 O ran ffurf Safonau'r Gymraeg, credwn yn gryf y dylai unrhyw ddiwygiadau i'r Safonau gael eu cyflwyno gyda'r amcan o geisio adeiladu ar y drefn sydd eisoes mewn lle. Gyda golwg ar hynny, awgrymwn y dylid rhoi mwy o ystyriaeth nag a gafwyd yn y Papur Gwyn i rinweddau Opsiwn 5, sef nodi cyfres o hawliau mewn perthynas â'r Gymraeg ar wyneb y Bil newydd. Mae'r Papur Gwyn yn sefydlu dewis pendant rhwng naill ai trefn sy'n seiliedig ar y Safonau, neu drefn amgen sy'n seiliedig ar sefydlu cyfres o hawliau. Fodd bynnag, yn ein tyb ni, nid oes rhaid dewis rhwng y naill opsiwn neu'r llall, ac yn wir, byddai gwneud hynny'n wendid. Yn hytrach, dylid ystyried dechrau'r Bil gyda chyfres o hawliau craidd, penodol iawn, ar ei wyneb (e.e. yr hawl i ofal meithrin yn y Gymraeg a'r hawl i addysg Gymraeg) a fyddai'n cynrychioli isafswm o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y gall unigolion yn rhesymol ei ddisgwyl ar draws Cymru. Yn ychwanegol, byddai modd i'r Bil gynnwys Safonau sy'n manylu ar ddyletswyddau cyrff amrywiol mewn perthynas â'r Gymraeg. Byddai potensial i weithrediad y rhain amrywio ar draws peuoedd gwahanol ac ar draws ardaloedd daearyddol o Gymru.

Byddai trefn debyg i'r uchod yn meddu ar nifer o ragoriaethau:

- Byddai cynnwys ystod o hawliau craidd ar wyneb y Bil yn cyfrannu at gynyddu eglurder ymhlith y cyhoedd ynglŷn â'r mathau o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y gellid yn rhesymol ei ddisgwyl ar draws Cymru, beth bynnag fo'r amgylchiadau.
- Tra bod cyd-destun ieithyddol cyfredol Cymru yn golygu y byddai'n rhaid cyfyngu'r hyn y gellir ei sefydlu fel hawl i gyfres o faterion sylfaenol a phenodol iawn, byddai'n gam gwerthfawr. Byddai'n cynnig sail y gellid adeiladu arno maes o law. Yn y dyfodol, byddai modd i ddeddfau eraill ychwanegu materion newydd i'r rhestr o hawliau iaith wrth i amgylchiadau newid, wrth i gapasiti sefydliadau ddatblygu, a hefyd wrth i ddisgwyliadau siaradwyr Cymraeg gynyddu.
- Byddai Bil sy'n cynnwys trefn y Safonau, yn ogystal â chyfres o hawliau craidd, yn osgoi cyfundrefn lle bo gwarantu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn peuoedd swyddogol yn dibynnu'n llwyr ar barodrwydd unigolion i ddefnyddio'r llysoedd. Dyma fu un o'r dadleuon a gyflwynwyd yn nghyfnod 2010-11 fel rheswm dros beidio dilyn y trywydd hawliau.

1.3 Asesu a yw'r fframwaith deddfwriaethol yn cefnogi'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg a'r defnydd ohoni ynteu'n cyfyngu ar y gwaith hwn

1.3.1 O ran trefniadau strwythurol, tra bod Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi pwyslais cryfach ar reoleiddio fel dull o wella gwasanaethau a mynediad atynt drwy gyfrwng swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, mae cynigion i gyfuno swyddogaethau rheoleiddio a hybu mewn un corff (Opsiwn 4 y Papur Gwyn). Mewn ymateb, gellid dadlau bod cyfuno swyddogaethau rheoleiddio a hybu mewn un corff yn debygol o fod yn her fawr ac yn llai effeithiol na'r trefniadau presennol gan fod y ddwy yn swyddogaethau gwahanol iawn o ran natur.

1.3.2 Wrth werthuso hyn, gellir cyfeirio yn ôl at drefniadau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a chyfnod Bwrdd yr Iaith Gymraeg, gan y bu'r corff hwnnw

hefyd yn gyfrifol am gyfuniad o swyddogaethau rheoleiddio a hybu. I nifer, roedd profiad y Bwrdd dros y blynyddoedd yn tanlinellu cymaint mwy o sylw mae gofyn i gorff cynllunio iaith ei roi, o ddydd i ddydd, i waith sy'n ymwneud â hybu defnydd cymdeithasol o'r iaith, o'i gymharu â rheoleiddio cydymffurfiaeth sefydliadau â'i dyletswyddau statudol. I rai, risgiau yn gysylltiedig â hyn yw y gallai cyfuno'r ddwy swyddogaeth arwain at dyndra mewnlol, gyda chystadleuaeth o ran amser, adnoddau a chyllid rhwng gwaith hybu a gwaith rheoleiddio. Ymhellach, gellid dadlau bod edrych yn ôl dros gyfnod Bwrdd yr iaith yn dangos bod trefniant sy'n cyfuno'r ddwy swyddogaeth yn medru arwain at sefyllfa lle gall fod yn anoddach i'r dinesydd sydd am fynnu ei hawliau mewn perthynas â'r Gymraeg i gael cyfiawnder. Nid yw'n eglur a fyddai'r corff yn fodlon defnyddio grym gorfodol pan fyddai sefydliadau yn gwrthod cydymffurfio a goblygiadau hynny i'r gwaith hyrwyddo ayb.

1.3.3 Byddem yn dadlau bod cyfundrefn sy'n gwahaniaethu'n glir rhwng swyddogaethau hybu a rheoleiddio yn ystyriaeth bwysig. Ochr yn ochr â hyn, nid yw'n gwbl glir os yw'r Llywodraeth wedi llawn fanteisio, hyd yn hyn, ar ei gapasiti i annog, cyfeirio a chydlynnu gweithgareddau'r ystod o gyrff sydd yn ymwneud â hybu'r Gymraeg, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol (h.y. lle bo elfennau o'u swyddogaethau craidd yn effeithio ar y Gymraeg). O'r safbwynt hwn, mae gallu y llywodraeth i hybu yn sylweddol.

1.3.4 Credwn y dylid ystyried datblygu ymhellach ar y trefniant a fu'n weithredol ers cyflwyno Mesur y Gymraeg 2011, sef:

- bod Llywodraeth Cymru yn arwain ar y gwaith o hybu'r Gymraeg;
- a bod y gwaith o fonitro cydymffurfiaeth sefydliadau â'u dyletswyddau statudol yn eiddo i gorff rheoleiddio hyd braich.

1.3.5 Credwn bod ystod o ddadleuon o blaid ystyried y trefniant hwn ymhellach:

- Mae gan lywodraethau y potensial i arwain gweithgaredd hybu mewn modd effeithiol. Mae gan lywodraethau y potensial i ddatblygu arbenigedd mewn cynllunio ieithyddol, ac ar ben hynny mae llywodraethau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, eisoes yn weithgar yn ceisio hybu newid ymddygiad ymysg y cyhoedd mewn meysydd polisi eraill, megis arferion byw a bwyta iach.
- Mae lle i ddatblygu ymhellach ar y gwaith mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ei wneud yn cydlynnu gweithgaredd hybu cyrff allanol sydd â swyddogaeth benodol mewn perthynas â'r Gymraeg.
- Byddai modd i lywodraeth ddefnyddio ei gyfalaf a'i awdurdod sylweddol er mwyn sbarduno gweithgaredd hybu gan sefydliadau pwysig eraill sy'n dylanwadu ar ddewisiadau iaith, er mai nid lles y Gymraeg yw eu prif ffocws. Mae'n bosib iawn y byddai ymdrechion o'r fath yn dipyn llai effeithiol o gael eu harwain gan gorff allanol na fyddai'n meddu ar yr un adnoddau a chyfalaf.
- Gallai cynyddu capasiti mewnlol y llywodraeth fel pwerdy cynllunio ieithyddol hefyd ddylanwadu ar adrannau eraill o fewn y llywodraeth,

gan adeiladu ar waith sydd eisioes wedi cael ei wneud mewn perthynas â'r WESPs. Mae rhai canfyddiadau o waith ymchwil diweddar yn awgrymu bod prif-ffrydio o'r fath yn fwy tebygol o ddigwydd trwy hwyluso gweithio agos rhwng swyddogion o wahanol adrannau o fewn y Llywodraeth (sy'n aml yn gwiethio o fewn yr un adeilad), na thrwy bod aelodau o gorff allanol hyd-braich yn ceisio edrych am ffyrdd o ddatblygu perthynas ag adrannau gwahanol o'r Llywodraeth.

- Lle bo galw am ymgymryd â gwaith hybu sy'n gofyn am ymgyrchoedd cyhoeddus ayb, mae'n gyffredin mewn sawl maes polisi i weld llywodraethau yn datblygu cynlluniau cyffredinol ac yna'n cytundebu darparwyr allanol i weithredu ymyrraethau neu ymgyrchoedd penodol ar eu rhan.

1.3.6 Tra ein bod uchod yn awgrymu dilyn llwybr a fyddai'n datblygu ar y trefniadau sefydliadol sydd eisioes yn eu lle, dylid pwysleisio y byddem yn argymhell gwneud hynny gan ffurfioli'r rhaniad rhwng swyddogaethau hybu a rheoleiddio mewn modd mwy eglur. Yn benodol, dylid sefydlu'n glir mai canolbwytio ar weithgaredd sy'n gysylltiedig â rheoleiddio cydymffurfiaeth â'r Safonau yw pennaf waith y corff rheoleiddio. Er bod rhai mentrau hybu defnydd clodwiw iawn wedi cael eu datblygu gan swyddfa'r Comisiynydd, yn gyffredinol, credwn bod trefniadau'r blynyddoedd diwethaf lle bu hybu defnydd cyffredinol o'r iaith yn rhan o 'swydd-ddisgrifiad' y Llywodraeth a'r Comisiynydd wedi creu amwysedd di-angen.

1.3.7 Mater arall o ran y fframwaith deddfwriaethol a ddylai dderbyn ystyriaeth lawnach yw trefniadau atebolrwydd presennol y Comisiynydd, ac yn benodol y ffaith mai'r Llywodraeth sy'n penodi deiliad y swydd. Yn sgil swyddogaethau rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg, credwn y byddai'n fwy priodol pe bai'r swydd yn un a benodir gan, ac sy'n atebol i'r, Cynulliad. Byddai hyn yn esgor ar drefniadau atebolrwydd mwy gwydn ac yn adlewyrchu'r consensws rhyngwladol cynyddol y dylai cyrff tebyg sy'n ymwneud â sicrhau hawliau a chyfluoedd cyfartal i ddinasyddion fod yn annibynnol o lywodraeth y dydd.

1.3.8 Mater pwysig arall sydd heb ei drafod yn ddigonol ac nad yw'n benodol yn ymwneud â'r fframwaith deddfwriaethol ond yn hynod o bwysig i'r gwaith o hyrwyddo'r iaith a'r defnydd ohoni yw natur y trefniadau sefydliadol ar gyfer y Gymraeg o fewn Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, nid oes adran benodol o fewn y Llywodraeth sy'n gyfrifol am y Gymraeg ac nid oes swyddog o statws Cyfarwyddwr yn gyfrifol am bolisi mewn perthynas â'r iaith.

1.3.9 Er mwyn cryfhau seiliau llywodraethiant polisi iaith, credwn yn gryf bod angen meddwl mwy am statws y gweision sifil sy'n ymwneud â'r Gymraeg a goblygiadau hyn i'w perthynas â gweinidogion neu weision sifil mewn adrannau eraill o'r Llywodraeth. Byddai hyn yn berthnasol pe aed ati i ddiwygio a mabwysiadu trefniadau deddfwriaethol amgen. Yn wir, gallai'r mater yma fod hyd yn oed yn fwy pwysig pe bai swyddogaethau yn cael eu trosglwyddo allan o'r Llywodraeth, gan y gallai dylanwad Is-adran y Gymraeg gael ei leihau ymhellach yn sgil hynny.

1.4 Persbectif rhyngwladol – casglu tystiolaeth ar ddeddfwriaeth i warchod a hyrwyddo gwaith cynllunio ieithyddol yng nghyd-destun iethoedd lleiafrifol mewn gwledydd eraill

1.4.1 Mae'r ymdrechion i hyrwyddo'r Gymraeg yng Nghymru ymysg yr esiamplau amlycaf o adfywio iaith leiafrifol yn Ewrop a'r mwyaf amlwg yn y DU o ran gweithgarwch wedi ei arwain gan y llywodraeth. Mae'n fuddiol bod yr ymchwiliad yn ystyried y perspectif rhyngwladol hwn o ran effaith deddfwriaeth ar ddiogelu a hyrwyddo gwaith cynllunio ieithyddol mewn gwahanol wledydd. Beirniadaeth amlwg o Bapur Gwyn oedd cloriannu'r trefniadau ar gyfer swydd Comisiynydd y Gymraeg gan ddibynnu'n unig ar gymariaethau eraill o fewn y Deyrnas Unedig. Croesawn roi sylw i wersi y gellid eu dysgu o'r ystod o achosion rhyngwladol lle ceir Comisiynwyr unigol sy'n gyfrifol am reoleiddio materion yn ymwneud â statws cyhoeddus iethoedd lleiafrifol fel y Gymraeg.

1.4.2 Nid yw amser wedi caniatáu i ni adolygu ein gwaith ymchwil sy'n ymwneud ag achosion o gynllunio ieithyddol yng nghyd-destun iethoedd lleiafrifol mewn gwledydd eraill. Fodd bynnag, hoffem wneud un pwynt cyffredinol. Wrth edrych ar draws esiamplau o weithredu i hyrwyddo iethoedd lleiafrifol, pan fo diffyg deddfwriaeth neu gwendid mewn deddfwriaeth, mae graddau gweithgarwch llywodraethol i hybu iethoedd rhanbarthol a lleiafrifol i raddau helaeth wedi amrywio dan ddylanwad brwdfrydedd pleidiau gwleidyddol penodol, eu gallu i gael dylanwad ac unigolion yn chwarae rôl allweddol mewn gwireddu mesurau cadarnhaol i iaith leiafrifol (yn aml dan anogaeth mudiadau allanol). Roedd hyn yn nodwedd i weithrediad Deddf Iaith 1993. Er gwaethaf ymgais y cynlluniau iaith i greu mwy o gysondeb mewn darpariaeth gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, roedd yr amrywio rhwng gwasanaethau yn dueddiad amlwg ac roedd gwleidyddiaeth bleidiol ac unigolion yn cael mwy o ddylanwad, er enghraifft ar ymateb awdurdodau lleol i'r trefniadau.

O'r herwydd, mae gofyn bod yn ymwybodol o'r modd y gall diwygiadau i ddeddfwriaeth iaith gryfhau neu leihau dylanwadau gwleidyddol ar weithrediad trefniadau cynllunio ieithyddol.

Document is Restricted

Agenda Item 4.1

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / The Culture, Welsh Language and Communications Committee

Supporting and Promoting the Welsh Language / Cefnogi a hybu'r Gymraeg

CWLC(5) SWL05

Ymateb gan Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg / Evidence from Meri Huws, Welsh Language Commissioner

Llinell amser mewn perthynas â chyflwyno safonau'r Gymraeg yn y sector iechyd

Darperir isod, eglurhad o'r holl gamau sydd ynghlwm â chyflwyno safonau'r Gymraeg ar y sector iechyd. Manylir ar bryd y cynhaliwyd neu yr arfaethir cynnal pob cam ynghyd â phwy sy'n gyfrifol am y camau hynny.

Ymchwiliad safonau (Comisiynydd y Gymraeg)

Ymchwiliad safonau yw'r cam cyntaf yn y broses o gyflwyno safonau ar sefydliad. Caiff y Comisiynydd gynnal ymchwiliad safonau i sefydliadau i benderfynu a ddylent orfod cydymffurfio a safonau, ac os dylent, pa safonau ddylai fod yn 'benodol gymwys' iddynt (hynny yw, pa safonau ddylai gael eu cyflwyno mewn rheoliadau ar eu cyfer).

Mae'r Comisiynydd wedi cynnal ymchwiliad safonau i 4 cylch o sefydliadau ac roedd y sefydliadau iechyd yn rhan o gylch 2 a gynhaliwyd rhwng **Tachwedd 2014 a Chwefror 2015**.

Ar ôl cynnal ymchwiliad safonau bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi adroddiad safonau fydd yn nodi casgliadau'r ymchwiliad, a rhesymau'r Comisiynydd dros ddod i'r casgliadau hynny. Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i adroddiad safonau.

Cyflwynwyd adroddiadau safonau mewn perthynas a'r sefydliadau iechyd at sylw Gweinidogion Cymru **ddiwedd Mai 2015**.

Cyflwyno rheoliadau (Gweinidogion Cymru)

Ar ôl ystyried adroddiad safonau'r Comisiynydd, bydd disgwyl i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau drafft a'r dogfennau cysylltiedig yng nghyswllt y sefydliad dan sylw. Bydd dadl a phleidlais ar gymeradwyo'r rheoliadau drafft yng nghyfarfod llawn y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd pleidlais i gymeradwyo'r rheoliadau yn

gwneud y safonau'n benodol gymwys i'r sefydliad, ac yn galluogi'r Comisiynydd i symud i'r cam olaf yn y broses o roi hysbysiad cydymffurfio iddynt.

Er nad yw hynny yn digwydd pob tro, gall Gweinidogion Cymru ymgynghori ar reoliadau drafft cyn eu cyflwyno am ddadl a phleidlais. Cyflwynodd Gweinidogion Cymru reoliadau drafft i'r sefydliadau iechyd i ymgynghori arnynt ar **14 Gorffennaf 2016**. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar **14 Hydref 2016**.

Cyflwynwyd fersiwn terfynol o'r rheoliadau hynny ar ffurf 'Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018' ar **27 Mawrth 2018** a daethant i rym ar **29 Mehefin 2018**.

Cyflwyno hysbysiad cydymffurfio (Comisiynydd y Gymraeg)

Dyma'r cam olaf yn y broses o osod safonau ar sefydliad. Bydd hysbysiad cydymffurfio yn cymryd lle unrhyw gynllun iaith Gymraeg blaenorol a bydd yn nodi'r holl safonau y bydd sefydliad yn rhaid cydymffurfio â hwy a'r dyddiad erbyn pryd. Bydd y Comisiynydd yn ymgynghori â sefydliad cyn rhoi hysbysiad cydymffurfio iddo.

Cynhaliodd y Comisiynydd sesiynau briffio i'r sefydliadau iechyd ym **Mai 2018**, yn fuan wedi i'r rheoliadau gael eu cyflwyno, er mwyn egluro'r broses olaf o fod yn gosod safonau'r Gymraeg arnynt. Yn dilyn hynny, cynhaliwyd cyfarfod un i un gyda phob un o'r 19 sefydliad (dylid nodi bod un ohonynt, sef Gofal Cymdeithasol Cymru, wedi eu hychwanegu i Reoliadau Rhif 4 ond yr un yw'r amserlen iddynt) yn **Mehefin a Gorffennaf 2018** er mwyn cael trafodaethau manwl ar ofynion y safonau ac i wrando ar unrhyw bryderon.

Cychwynnodd y Comisiynydd ymgynghori gyda'r sefydliadau ar hysbysiadau cydymffurfio drafft ar **18 Gorffennaf 2018**. Bydd yr ymgynghoriad hwnnw yn dod i ben ar **10 Hydref 2018** ac anelir at ddyroddi'r hysbysiadau cydymffurfio terfynol ddiwedd **Tachwedd 2018**.

Golyga hynny y bydd y sefydliadau iechyd yn dechrau gweithredu safonau 6 mis o hynny (fel sy'n ofynnol o dan y Mesur), sef diwedd **Mai 2019** a dyna pryd bydd y cynlluniau iaith Gymraeg presennol yn dod i ben.

Rheoliadau	Rhif 1	Rhif 2	Rhif 4	Rhif 5	Rhif 6	Rhif 7
Dod i rym	Mawrth 2015	Chwefror 2016	Mawrth 2016	Mawrth 2016	Chwefror 2017 - Ailgyflwyno wedi Rhif 3 (a wrthodwyd ym Mawrth 2016)	29 Mehefin 2018
Nifer sefydliadau	26	32	6	16	27	18 (19 gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i Rhif 4)
Math o sefydliadau	Awdurdodau lleol, Gweinidogion Cymru, Parciau Cenedlaethol	Sefydliadau cyhoeddus cyffredinol megis; Amgueddfa Cymru, Comisiynydd Plant a Phobl Hŷn, Canolfan Mileniwm Cymru, BBC	Tribiwnlysoedd Cymru megis; Tribiwnlys Prisio Cymru, Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg	Prif gwnstablaid yr heddlu, Comisiynwyr heddlu a throseddu, Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain, Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil, Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu, Awdurdodau tân ac achub	Career Choices Dewis Gyrfa Cyf, Sefydliadau Addysg Bellach, Corfforaethau Addysg Bellach, Sefydliadau Addysg Uwch, Corfforaethau Addysg Uwch, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru	Byrddau Iechyd Lleol, Cyngorau Iechyd Cymuned, Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned, Ymddiriedolaethau' r GIG
Ymchwiliad safonau	Cylch 1 (Ionawr – Mawrth 2014)	Cylch 2 (Tachwedd 2014 – Chwefror 2015)	Cylch 2 (Tachwedd 2014 – Chwefror 2015)	Cylch 2 (Tachwedd 2014 – Chwefror 2015)	Cylch 2 (Tachwedd 2014 – Chwefror 2015)	Cylch 2 (Tachwedd 2014 – Chwefror 2015)
Cyhoeddi adroddiad safonau	Mai 2014	Mai 2015	Mai 2015	Mai 2015	Mai 2015	Mai 2015
Sesiynau briffio	Heb eu cynnal	Chwefror 2016	Ebrill 2016	Ebrill 2016	Mawrth 2017	Mai 2018
Ymgynghori ar HC drafft	22 Mehefin – 20 Gorffennaf 2015 (4 wythnos)	31 Mawrth – 26 Mai 2016 (8 wythnos)	1 Mehefin – 29 Gorffennaf 2016 (8 wythnos)	1 Mehefin – 29 Gorffennaf 2016 (8 wythnos)	9 Mehefin – 4 Awst 2017 (8 wythnos)	18 Gorffennaf – 10 Hydref 2018
Dyrodidi HC terfynol	30 Medi 2015	25 Gorffennaf 2016 (BBC + WLGA 30/09/16)	30 Medi 2016	30 Medi 2016	29 Medi 2017	Tachwedd 2018
Dyddiad gosod cyntaf	30 Mawrth 2016	25 Ionawr 2017 (BBC + WLGA 30/03/17)	30 Mawrth 2017	30 Mawrth 2017	1 Ebrill 2018	Mai 2019

Crynodeb – 103 sefydliad yn gweithredu safonau ar hyn o bryd (122 unwaith y byddwn wedi gosod ar sefydliadau iechyd)

Document is Restricted



Agenda Item 4.2

To: Kirsty Williams AM, Cabinet Secretary for Education

Dafydd Elis-Thomas AM, Minister for Culture, Tourism and Sport

National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

1st October 2018

Dear Ms. Williams and Lord Elis-Thomas,

Music Services in Wales

Thank you for your correspondence of earlier in the month responding to the Culture, Welsh Language and Communication Committee's report, "Hitting the Right Note". Since then, a group of colleagues (listed as signatories to this letter and drawn together as leaders of professional music organisation in Wales) have met to consider your published response to the Committee's report. We would like to offer the following comments.


At the heart of the Committee's report is a recommendation that Music Services in the future should be delivered by a new national entity – one with a defined regional presence. This is a bold and radical suggestion and in these challenging times we believe it takes bold and radical suggestions to really make a difference and have true impact. However it is difficult at the moment to identify any existing body that would be easily able to assume such a responsibility. Although evidently in crisis, local authority music services (although discretionary) have the local knowledge and presence to ensure that equity of provision, which is so key to the work of music education, is delivered.

Given this, we warmly encourage the 'feasibility study' that you refer to and for this to be undertaken with urgency. Those local authorities that continue to offer music services (and it is the case that not all 22 of them still do) are under extreme pressure, and in those areas where services have already disappeared, a generation of young people are being denied the opportunity to learn a musical instrument. From our perspective it seems essential that such a study be undertaken and completed before December 2018. We hope, naturally, that this would allow findings to be taken into account during the budget-making processes that the Welsh Government and local authorities will be undertaking over the winter months. To miss an April 2019 deadline for implementation of any new arrangements would undoubtedly risk irreparable damage to an already fragile service.

As signatories to this letter, we all have an interest in seeing musical education thrive across Wales and we are keen to develop a positive role in helping to find solutions to these difficult issues. It would help us if we were clear where the responsibility will be in Government for driving matters forward. In your rejection of recommendation 2 (take strategic ownership of music services etc.) you refer to both the 'ongoing activity within other Ministerial portfolio

BBC NATIONAL ORCHESTRA AND CHORUS OF WALES

BBC Hoddinott Hall, Wales Millennium Centre, Cardiff Bay, Cardiff CF10 5AL
bbc.co.uk/now now@bbc.co.uk @bbcnw



areas' and the feasibility study referred to above. We would be grateful if you could clarify what this 'ongoing activity' is. We all have an interest in seeing a sustainable approach to Music Services. If there is other work already underway in different departments, it would help us if it could be made clear what it is, the timetable that is being worked to and ways that we might assist.

Nevertheless, we are pleased to see your acceptance of most of the Culture Committee's recommendations. We would encourage you to move swiftly in delivering the actions that you've outlined in your response to the report.

Michael Dugher, chief executive of UK Music, wrote only last week in an article in the New Statesman that in England:

"One fifth of schools did not offer GCSE Music last year. Of those schools that do offer Music GCSE, 11 per cent are taught outside curriculum time."

Here in Wales, there are already similarly disheartening statistics. At A2 Music (i.e. A Level) in 2008 there were 603 entries (in both Welsh and English language). Ten years later in 2018 there were 327 entries for the same exams.

The decline in music education in England is already having a significant impact. Wales has always prided itself in doing things differently to England, as a country we have always valued the importance of creativity and have doggedly worked to ensure that educational opportunities are available to all, regardless of ability to pay. We don't under-estimate the complexity of the task, but we must all commit to fighting the decline in music education provision that is having such a cataclysmic impact in England.

We make ourselves available for dialogue and advice should the Welsh Government wish to consult us, as part of the wider music sector, on these important topics.

Yours sincerely,

Peter Bellingham, Chief Executive, Sinfonia Cymru

Nick Capaldi, Chief Executive, Arts Council of Wales

Michael Garvey, Director, BBC National Orchestra and Chorus of Wales

Helena Gaunt, Principal, Royal Welsh College of Music and Drama

Gillian Mitchell, Chief Executive, National Youth Arts Wales

Meinir Llwyd Roberts, Director, Canolfan Gerdd William Mathias

Leo Thomson, Managing Director, Welsh National Opera

Bethan Sayed AM
Dafydd Ellis-Thomas AM, Minister for Culture, Tourism and Sport
Kirsty Williams AM, Cabinet Minister for Education
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff CF99 1NA

28 September 2018

We are writing in response to the recent report by the Culture, Welsh Language and Communications Committee *Hitting The Right Note* and the Welsh government's response to the report, ahead of the debate scheduled in the Senedd for 24 October.

***Making Music** is the UK wide organisation supporting, celebrating and speaking on behalf of the leisure-time music sector, with a membership of around 3,500 music groups (169 in Wales) comprising about 190,000 individuals (9,200 in Wales). Available data suggests we represent around 20% of the sector, pointing to the likely number of over 800 such groups in Wales, involving more than 45,000 individuals.*

Adult leisure-time musical activity has in much recent research been proven to be beneficial for individuals' physical and mental well-being and making a major contribution to place-making for residents and businesses as well as connecting generations and socially or culturally diverse groups of people in communities.

In financial terms, participation or engagement with music for adults with particular physical or mental health issues has been proven to reduce demand for health and social services and prescriptions. The case has been made to, and has been accepted by, the NHS that this kind of activity directly positively impacts pressure on the health service. It is also now generally acknowledged that such participation can prevent problems arising in the first place, particularly in terms of loneliness and mental health, and builds personal and community resilience.

Hitting The Right Note is therefore a welcome and timely investigation into the funding and access to music education and we are delighted that the Welsh government recognises the importance of this topic.

The impact of music education is significant, for sure, in terms of the professional music sector, but additionally in terms of the leisure-time music sector. The two are connected, naturally, as professional musicians teach, lead, accompany, compose for, sing and play with leisure-time music groups.

But the ultimate significance of music education far exceeds the remits of the Cabinet Minister for Education, or of the Minister for Culture, Tourism and Sport, affecting also the portfolios of the Cabinet Secretary for Health and Social Services, of the Minister for Children, Older People and Social Care, of the Minister for Housing and Regeneration, and more, due to the benefits associated with engagement in music for both adults and children.

It is therefore disappointing that the Welsh government rejects **Recommendation 2 (National Plan for Music)** of the report on the grounds that this work would cut across several Ministerial portfolio areas.

In our view, that is precisely why this plan is urgently needed, to highlight the significance of music - and the widest number of the population engaging with it - for a whole range of policies and desirable outcomes, including that of a healthy population, thriving communities and civil society.

We understand the Cabinet Minister for Education's argument that such cross-portfolio work would take more time than a plan for Music Education alone which would sit squarely within her remit. But only such cross-departmental work will reveal the true extent of the beneficial outcomes which can be delivered by universal and equitable access to music education.

This work would not stop the Welsh government immediately implementing policies to ensure such access. We believe that **Recommendation 1 (national body to coordinate/direct music education)** in some respects is not far-reaching enough. A national body such as National Youth Arts Wales is indeed needed to run national youth ensembles in all musical genres.

But in terms of music education, there is a simpler solution than the one proposed by the committee's report: **give every child access to free instrumental tuition as part of the school curriculum.**

We are disappointed that as a national government you appreciate the importance of music education, but avoid drawing the logical conclusion from that by allocating it the necessary investment, instead passing the buck back to local authorities. ***Music education should be statutory, free and part of the national curriculum in Wales;*** there would then be no question that it needs to be properly resourced, in the same way that Maths, Welsh, History or PE are.

In our view, **Recommendations 9 and 10 (instruments; Estyn inspection criteria)** naturally harmonise with and support universal free access to music education in general and instrumental tuition in particular and we warmly welcome the Welsh government's support for these.

It is our contention that **Recommendation 14 (national ensembles reflective of diversity of population)** would be entirely unnecessary if every child had equal and free access to music education and instrumental tuition in school as part of the curriculum. Such access would naturally ensure that talent, not parental privilege, guarantees the path to excellence and the top of the youth ensemble pyramid.


It is telling that so often these debates are framed around cost, a word which implies a drain on a budget, a negative. ***Paying for universal and free access to music education and instrumental tuition for all under-18s is not a cost – it's an investment.***

An investment towards the health and well-being of the whole population, a mitigation of the effects of poverty, isolation and old age (amongst other things) on social care and health services, an investment in communities, ***an investment in the future of Wales.***

Cost implies a minus without a plus. We expect ***investment to be recouped and bring profit*** – and that is certainly what you would and should expect if you were to wholeheartedly commit to investing in young people's music education.

Please do not hesitate to call on us to supply further evidence or testimony to the Committee, the Welsh Assembly or the Welsh government. We would be delighted to help if we can.

Yours sincerely,



Barbara Eifler, Chief Executive
Making Music

Iori Haugen, Manager, Wales
Making Music



South Powys Youth Music

charity number 1121625

Nick Gedge; Chairman

Ty Mawr, Bwlch, Brecon, Powys LD3 7SQ

npjgedge@gmail.com

tel. 01874 730300 / 07740 986145

Bethan Sayed AM

National Assembly for Wales

Cardiff Bay

Cardiff

CF99 1NA

October 4th 2018

Dear Ms Sayed

Re “Hitting The Right Note” and South Powys Youth Music

I was delighted recently to read your WAG report “Hitting The Right Note” and wholeheartedly applaud the aims expressed in it to establish a national strategy directed at supporting youth music making in Wales. It is my fault that somehow the evidence gathering process passed me by as I would very much have liked to have had some input in order to explain the situation in Powys. Your report – excellent as it is – seems to be predicated on the understanding that every local authority area in Wales has a music service. Sadly this simply is not the case. Powys does not have a music service at all and has not had one since the mid 1990s. Nor has Powys since then had, as far as I can tell, any coordinated provision of musical instrumental teaching. What has existed since then has been on an ad hoc basis and has survived, as far as I understand it, very much because of the dogged determination of a few individuals rather than as a result of any support from Powys CC. Having read your report I am anxious that you and your committee may be wholly unaware of quite how bad things are in Powys in terms of support for music provision and for how long this has been so.

I have the privilege of being chair of South Powys Youth Music (SPYM). It was founded in the mid 1990s by Alan Davies (previously a Powys Music Service peripatetic cello teacher) in an effort to fill some of the yawning gap in musical provision left by the disbanding of the Powys Music Service. SPYM is an independently run charity. It is categorically not, and has never

pretended to be, a music service – it simply does not have the financial resources to be one. The core of SPYM's work revolves around weekly after school sessions in Brecon on Wednesdays. These sessions cater for children and young people between the ages of 6 – 18. Average attendance each week is somewhere between 80 – 100. In an effort to be as accessible to as many people as possible in our very rural area SPYM fully funds bus transport from the Crickhowell and Builth Wells areas. SPYM runs various groups for various ages – choir, percussion group, wind band, Stringtastic (for less experienced string players) and South Powys Youth Orchestra (SPYO). The musical director is Tim Cronin. He is originally from Neath and came through the West Glamorgan Music Service. He went on to read music at Oxford before having a career as a violinist and violist with leading London period instrument orchestras before he relocated to Brecon about 15 years ago. Tim is assisted by professional musician tutors who in turn are supported by a group of adult volunteers who are experienced musicians. SPYM also has a stock of instruments available for hire. SPYM puts on regular concerts. In addition to this there has in past years been outreach work in collaboration with Sinfonia Cymru, BBC National Orchestra of Wales and the Royal Welsh College of Music and Drama. SPYM has also in the past - when funds have allowed - provided instrumental roadshows in primary schools to try to introduce as many young people as possible to live music making and to playing instruments. In addition to this SPYM runs “Shake Rattle and Roll” – interactive music sessions for pre school children at various locations.

The aim of SPYM is to provide high quality group music making opportunities for the children and young people in our area. As far as I am aware there is no other body providing similar opportunities in the area. Whilst we aim for high standards we are open to young musicians of all abilities – we are not just interested in musical talent but equally in musical interest. SPYM also has longstanding and fruitful links with the Royal Welsh Academy of Music and Drama who often help with the provision of lower brass players to assist SPYO in concerts and with the renowned Brecon Baroque Festival whose musical director – the eminent international baroque violinist Rachel Podger – is the partner of Tim Cronin, SPYM's musical director. Further and in addition to SPYM's work, Tim Cronin and Rachel Podger run the Mozart Music Fund – a fund which assists those in need with the costs of instrumental tuition.

The issue of local authority support for SPYM has for some time been a bone of contention between me and Powys CC. I have been chair of SPYM for around 10 years now. In that time the highest level of financial support in any single financial year from Powys CC for SPYM – the only provider of the musical services it offers in the area, and in the complete absence of any

Powys CC expenditure on a music service (very simply there isn't one) – was £20,000. That was the level of funding in 2011 – 2012 and 2012 – 2013, two of the three years (2012 -2014) when SPYM very successfully joined forces with their North Powys counterparts to hold a residential Powys Youth Orchestra Course. Since then the level of Powys CC support for SPYM has steadily decreased. In the year 2013 -2014 the support was cut to £15,000. In 2014 – 2105 it was further cut to £10,000 – this being a discretionary award. In May 2015 Powys set up the Powys Youth Music Development Scheme as a vehicle for funding. The maximum amount that could be applied for was £7,500. SPYM was awarded that amount, this being the entirety of Powys CC support for 2015 - 2016. When invited to apply to the fund for support in 2016 – 2017 we were told that the maximum grant would be £5,000. After some fairly brisk emails from me and Tim Cronin, Powys backtracked and raised the maximum to £7,500 which again was the entirety of the support from Powys CC for SPYM that year. Unfortunately the limit was lowered the next year (brisk emails that time had no effect...) to £5,000, this being the entirety of Powys CC support in 2017 -2018. Over the years I have also been to various meetings with Powys CC officials and councillors to fight SPYM's financial corner. Those trips to Llandrindod Wells achieved precisely nothing.

Before I come to the most recent developments you will I hope be dismayed by the paucity of financial support offered by Powys CC to SPYM – as I say, the only such provider of such youth music services (for want of a better word) in our area. In very general terms SPYM's core activities (the Wednesday sessions in Brecon) cost around £35,000 to run per year. About 6 or so years ago when SPYM was able to do rather more – for instance the Powys Youth Orchestra residential course, a "satellite" outreach group in Presteigne, Junior Orchestral workshops etc – we realised that funding in the future was likely to drop. We not only sought further and alternative sources of funding but, I think wisely, took a cautious approach in order to preserve some financial reserves. We also recognised that it was likely that we would have to reduce SPYM's activities in order to secure its longer term future. This has indeed happened with SPYM now focussing only on its "core" Wednesday sessions. But even with this reduction of our activities, with careful financial management and with ongoing active fundraising efforts SPYM's financial reserves have dwindled. At a Committee meeting earlier this week there was a recognition of the possibility of SPYM, on current trends, simply running out of money within 2 years.

Yesterday, the day after that committee meeting, I received from Powys CC the news that as a result of our latest application to the Powys Youth Music Development Scheme SPYM has been awarded £5,000 for 2018 – 2019. That email, however, concluded with this paragraph;

Please be advised that the **Powys Youth Music Development Scheme** is likely to cease at the end of this year and therefore no further funding will be available from Powys County Council from April 2019. We apologise for the disappointment this may cause.

This news is the latest awful development in the sorry tale of Powys CC and its approach to the financial support of youth music provision. Quite where this will leave SPYM we have yet to work out. We have survived so far and are determined to do our best to survive in the years to come but at the very least it will be difficult. It would be the greatest of ironies if bodies such as ours were to wither before the recommendations in your report are put into force.

There is one final point. Within 45 minutes of receiving the email from Powys CC telling me of SPYM's award of £5,000 for 2018 – 2019 and also of the likely complete cessation of funding from April 2019, I received a further email from the same person. That email was a reminder to SPYM of the looming deadline for applications for auditions for the NYAW ensembles. Quite where people think young musicians will magically appear from in the future when funding to youth music organisations in Powys is likely to cease completely is something that completely baffles me. I found it extraordinary – and extraordinarily and very unfortunately ironic - to have received those two emails in quick succession.

I hope that this letter helps you understand the most unfortunate situation in this area. I will also be writing on the subject to Kirsty Williams AM (whom I know and who is also a former SPYM parent), to Chris Davies MP and also to various Powys County Councillors whom I hope may be sympathetic to our cause. I have also enclosed the programmes from two of SPYM most recent concerts which may give you an idea of the sort of work that we do. If you would like any further information please do not hesitate to contact me. Likewise if (and I realise you must be extremely busy) you would be interested to come along on to Brecon on a term time Wednesday afternoon to see what SPYM does, please do not hesitate to contact me. We would be very pleased to welcome you. Equally if you would like to meet

me in person to discuss this matter further I would be delighted to come to wherever would be most convenient for you.

With very best wishes,

Yours sincerely,

NICK GEDGE

CHAIR OF SOUTH POWYS YOUTH MUSIC